PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 6 RHAGFYR 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mitchell(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Clark, Chris Davis, Hill-John a/ac Darren Williams |

41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

42 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

43 : STRATEGAETH BEICIO DDRAFFT CAERDYDD A MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG

Gohiriwyd ystyried yr eitem hon tan y cyfarfod Pwyllgor nesaf ar 10 Ionawr 2016.

44 : FFORDD GYSWLLT DDWYREINIOL Y BAE – CYDASTUDIAETH ARFAETHEDIG

Gohiriwyd yr eitem hon.

45 : GWASANAETH CYNLLUNIO – DIWEDDARIAD I AELODAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnig cyfle i ystyried gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynllunio ac adolygu'r hyn a wnaed i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Yn benodol, gofynnwyd i Aelodau ystyried 'Awdurdod Cynllunio Lleol Caerdydd – Perfformiad Blynyddol Cynllunio

Mae'r APB yn rhoi trosolwg o Gaerdydd, yn sylwi ar gefndir cynllunio Caerdydd (gan nodi i'r Ddinas fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn Ionawr 2016); yn nodi cyd-destun Polisi Corfforaethol Caerdydd; yn trafod dylanwadau presennol a blaenorol ar ddefnydd tir; yn disgrifio'r sefyllfa tirlun a hanesyddol; yn esbonio'r patrwm anheddu ac yn cloi trwy sylwi ar newid mewn poblogaeth a dylanwad ar y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r APB hefyd yn esbonio strwythur sefydliadol y Cyngor a sut mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn berthnasol i'r strwythur hwn. Cyfeirir at sylwebaeth ar weithgareddau sefydliadol ehangach sy'n effeithio ar y Gwasanaeth Cynllunio ac ystyriaeth o ran gweithredu cyllideb a materion staffio hefyd. Mae pedair rhan y Gwasanaeth Cynllunio wedi'u nodi fel a ganlyn:

- Polisi Cynllunio
- Rheoli Datblygu – Strategol a Chreu Lleoedd

- Rheoli Datblygu – Anstrategol a Gorfodi
- Rheoli Adeiladau

Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r prif bwyntiau canlynol o’r adroddiad APB:

- Mae 20 swydd wedi’u dileu o’r Gwasanaeth Cynllunio yn y pum mlynedd diwethaf - gan gynnwys lleihau nifer y rheolwyr gweithrediadol o bump i ddau;

- Mae incwm ffioedd cynllunio wedi amrywio’n sylweddol yn ystod blynyddoedd diweddar, er enghraifft, rhwng 2008/09 a 2012/13 parhaodd incwm ffioedd i fod rhwng £1.2 miliwn a £1.4 miliwn. Mae hyn wedi gwella yn ystod blynyddoedd diweddar ac yn 2014/15 £1.86 miliwn oedd incwm ffioedd. Codwyd y targed ar gyfer incwm ffioedd yn 2015/16 i £1.93 miliwn a bwriwyd y targed hwn. Mae’r incwm ffioedd ar gyfer 2016/17 wedi codi eto i £2.03 miliwn;

- Croesawyd cynnydd o 15% yn ffioedd cynllunio yn hydref 2015, ond cyflwynodd y cymalau ad-dalu ffioedd yn y Rheoliadau Ffioedd Cynllunio newydd risg sylweddol;

- Ar hyn o bryd, mae 50 swydd gyfwerth ag amser llawn gan y Gwasanaeth Cynllunio;

- Mae llwythi gwaith staff yng Ngwasanaethu Cynllunio Caerdydd yn uchel. Yn 2015/16 prosesodd Caerdydd 3,053 o geisiadau o’i chymharu â chyfartaledd Cymru sef 949;

- Mae lefelau salwch yn isel ac yn is na’r Gyfarwyddiaeth a chyfartaledd y Cyngor cyfan.

Mae adran yn yr adroddiad yn rhoi trosolwg cyffredinol o’r pynciau sy’n gysylltiedig â’r Gwasanaeth Cynllunio. Mae arsylwadau gwerth eu nodi fel a ganlyn:

- Polisi Cynllunio - Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn Ionawr 2016 a bydd yn parhau i ffurfio elfen bwysig o waith polisi. Bydd angen i’r Gwasanaeth Cynllunio adolygu'r 102 dangosydd sy’n llywio adolygiadau cynlluniau’r dyfodol a helpu i ddatblygu cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol a fydd yn sail i’r CDLl;

- Polisi Cynllunio – Bydd angen i’r Gwasanaeth Cynllunio ymgysylltu â, cefnogi a helpu i ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol (CDS). Fel gyrrwr economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, bydd Caerdydd yn ceisio chwarae rôl weithredol ochr yn ochr ag awdurdodau lleol eraill i fynd â’r gwaith hwn yn ei flaen;

- Polisi Cynllunio – Bydd angen i’r Gwasanaeth Cynllunio ysgrifennu Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol bob hydref i Lywodraeth Cymru ei ystyried;

- Polisi Cynllunio – Bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn gweithio gyda’r Gwasanaeth Tai i nodi galw a safleoedd Sipsi a Theithwyr newydd i fodloni galw yn unol ag AMR a gofynion Tai;

- Polisi Cynllunio – Bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn paratoi Astudiaeth Argaeledd Tir Tai ar y Cyd blynyddol;

- Rheoli Datblygu a Gorfodi - 3,053 oedd nifer y ceisiadau cynllunio i Gaerdydd benderfynu arnynt yn 2015/16; 20% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol;

- Rheoli Datblygu a Gorfodi - Gall swyddogion achos brosesu hyd at 300 o geisiadau'r flwyddyn, ond, mae'r rhai hynny sy'n delio â cheisiadau mawr yn prosesu cryn dipyn yn llai;

- Rheoli Datblygu a Gorfodi – mae archwiliadau gorfodi yn creu llwyth achos o tua 500 i 800 achos y flwyddyn. Mae'r Tîm Gorfodi wedi'i leihau'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar gyda thri swyddog yn rhannu eu hamser ar hyn o bryd rhwng gorfodi ac archwiliadau ac fel swyddogion achos rheoli datblygu;

- Creu Lleoedd – Mae'r Tîm Creu Lleoedd yn darparu amrywiaeth eang o swyddogaethau cynllunio statudol ac anstatudol ac yn cynnwys arbenigedd mewn meysydd megis dyluniad dinesig, uwchgynllunio, cadw amgylchedd wedi'i adeiladu a naturiol a rheoli projectau;

- Creu Lleoedd – Bydd y Tîm Creu Lleoedd yn arwain y gwaith o baratoi a mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol Caerdydd. Mae'r gwaith hwn wedi creu llawer o waith ychwanegol i'r Tîm ac mae'n symud ymlaen

Dywedwyd wrth yr aelodau bod Uned Ddata Llywodraethu Cymru wedi cynnal arolygon boddhad cwsmeriaid ar gyfer yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru ac wedi rhoi crynodeb o ymatebion sydd yn yr APB. Anfonwyd yr arolwg i 1,045 o bobl a chafwyd cyfradd ymateb o 11%. Nodwyd yr arolwg y canlynol:

- Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gorfodi ei reolau cynllunio'n deg ac yn gyson: Mae 50% yn cytuno i Gaerdydd gyflawni hyn yn erbyn cyfartaledd Cymru o 47%.

- Rhodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol gyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus: Mae 62% yn cytuno i Gaerdydd gyflawni hyn yn erbyn cyfartaledd Cymru o 58%.

- Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi help trwy'r amser, gan gynnwys gydag amodau: Mae 48% yn cytuno i Gaerdydd gyflawni hyn yn erbyn cyfartaledd Cymru o 49%.

- Ymatebodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn brydlon pan oedd cwestiynau ganddynt: Mae 57% yn cytuno i Gaerdydd gyflawni hyn yn erbyn cyfartaledd Cymru o 58%.

- Gwrandawyd arnynt ynghylch eu cais: Mae 56% yn cytuno i Gaerdydd gyflawni hyn yn erbyn cyfartaledd Cymru o 57%.

- Rhoddwyd y diweddaraf iddynt am eu cais: Mae 47% yn cytuno i Gaerdydd gyflawni hyn yn erbyn cyfartaledd Cymru o 49%.

- Roeddent yn fodlon yn gyffredinol ar sut triniodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol eu cais: Mae 62% yn cytuno i Gaerdydd gyflawni hyn yn erbyn cyfartaledd Cymru o 61%.

Roedd atodlen 1 yr adroddiad yn cynnwys data perfformiad.  Rhestrwyd y prif bwyntiau o ran perfformiad fel a ganlyn:

- Mabwysiadodd Cyngor Caerdydd ei Gynllun Datblygu Lleol yn Ionawr 2016 – bu hyn yn gerrig milltir arwyddocaol gan y paratowyd y Cynllun Lleol blaenorol yn 1996 ac ystyriwyd ei fod yn hen;

Yn 2015/16

- Penderfynodd Gwasanaeth Cynllunio Caerdydd ar 3,053 o geisiadau cynllunio gan gymryd 79 diwrnod i'w prosesu ar gyfartaledd - mae hyn yn cymharu ar gyfartaledd Cymru sef 77 diwrnod;

- Roedd gan Gaerdydd lwyth achos y swyddog cynllunio o 186 cais – yr ail uchaf gyfradd ymhlith holl ddinasoedd craidd y DU (roedd gan Lerpwl y sgôr uchaf o 197 achos y swyddog cynllunio);

- Proseswyd 75% o holl geisiadau cynllunio Caerdydd oddi mewn i'r amserlenni angenrheidiol - 77% oedd cyfartaledd Cymru;

- Penderfynodd Caerdydd ar 52 cais cynllunio mawr - cymerwyd 266 diwrnod ar gyfartaledd i benderfynu arnynt (213 diwrnod oedd cyfartaledd Cymru);

- Prosesodd Gwasanaeth Cynllunio Caerdydd 27% o'i geisiadau oddi mewn i'r amserlenni angenrheidiol – cymhariaeth i 35% ledled gweddill Cymru

- Cododd ganran y mân geisiadau y penderfynwyd arnynt oddi mewn i'r amserlenni angenrheidiol o 67% i 84%;

- Cododd ganran o geisiadau deiliaid tai y penderfynwyd arnynt oddi mewn i'r amserlenni angenrheidiol o 71% i 86%;

- Yn 2015/16 penderfynodd Pwyllgor Cynllunio Caerdydd ar 91 cais cynllunio - sy'n gyfartal â 3% o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt (mae cyfartaledd Cymru yn 4% yn llai - 7%); Roedd 1% o'r penderfyniadau wedi'u gwneud gan Bwyllgor Cynllunio Caerdydd yn erbyn cyngor swyddogion (9% oedd cyfartaledd Cymru); yn 2015/16 derbyniodd y Cyngor 47 apêl yn erbyn penderfyniadau cynllunio - mae hyn yn gyfartal â 1.5% o'r holl geisiadau (2% yw cyfartaledd Cymru); o'r 35 apêl y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 63% ohonynt (22 achos);

- Dywedodd 62% o ymatebwyr i'r arolwg i Wasanaeth Cynllunio Caerdydd dderbyn cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus – mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 58%;

- Yn 2015/16 archwiliodd y Cyngor 532 o achosion gorfodi sy'n gyfatral i 0.66 fesul 1,000 o bobl; yng Nghaerdydd archwiliwyd 97% o'r achosion gorfodi ymhen 84 diwrnod; cymerwyd 88% o gamau gorfodi yng Nghaerdydd ymhen 180 diwrnod o ddyddiad dechrau'r achos.

Aseswyd perfformiad y gwasanaeth cynllunio hefyd trwy fecanweithiau adrodd y Cyngor ei hun.  Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio yn

chwarterol yn rhan o Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas. Yn enwedig, mae'r pwyllgor wedi sylwi'n rheolaidd ar ddau brif ddangosydd perfformiad:

- PLA/004(a) – Canran y ceisiadau cynllunio mawr sy'n cael eu penderfynu o fewn 13 wythnos yn ystod y flwyddyn

- PLA/004(a) – Canran y ceisiadau cynllunio cartrefi sy'n cael eu penderfynu o fewn 8 wythnos yn ystod y flwyddyn

Nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y 12 mis diwethaf
O ran y dangosyddion hyn. Cyflawnodd PLA/004 (a) ffigwr alldro o 12% yn erbyn targed o 25% ar gyfer 2015/16. Dychwelodd y Gwasanaeth Cynllunio ganlyniad o 37.5% yn ystod Chwarter 1 2016/17 ac yna gyflawnodd ganlyniad o 53.8% ar gyfer Chwarter 2 2016/17. Ar yr un adeg cyflawnodd PLA/004 (c) ffigwr alldro o 71.4% yn erbyn targed o 80% ar gyfer 2015/16. Dychwelodd y Gwasanaeth Cynllunio ganlyniad o 80.8% yn ystod Chwarter 1 2016/17 ac yna gyflawnodd ganlyniad o 80.3% ar gyfer Chwarter 2 2016/17.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ramesh Patel, Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd; y Cynghorydd Michael Michaels, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio; James Clements, Pennaeth Cynllunio; a Simon Gilbert, Rheolwr Gweithredol, Strategol - Creu Lleoedd i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cynghorydd Michael ddatganiad byr. Diolchodd i'r aelodau am y cyfle i siarad â'r Pwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd fod y Gwasanaeth wedi dod yn wasanaeth mwy effeithlon ers 2012. Diolchodd y Cynghorydd Michael i staff y Gwasanaeth Cynllunio am y gwaith gwych y maen nhw wedi ei wneud dros y 4 blynedd diwethaf. Roedd Caerdydd yn tyfu ac roedd mwy o geisiadau cynllunio'n cael eu derbyn. Fodd bynnag, roedd staff yn dal i fwrw eu targedau ac mae'r adroddiad yn dangos hyn. Roedd gwaith i'w wneud o hyd ond roedd swyddogion ar y trywydd iawn ar gyfer cyflawni hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Patel fod swyddogion Cynllunio wedi bod yn gweithio yn eithriadol galed dan bwysau i ddarparu datblygiadau mawr, strategol ers mabwysiadu'r CDLl. Roedd perfformiad yn gwella ar yr un adeg ac roedd yr ymdrechion i gyflawni cynnydd o 20% mewn ceisiadau yn gyflawniad da.

Rhodd y swyddogion gyflwyniad. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i holi, wneud sylwadau neu geisio eglurder ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Canmolodd aelodau'r pwyllgor swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio am eu perfformiad.

- Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio fod swyddogion yn canolbwyntio ar ddefnyddio cyllid s106 i roi'r seilwaith y mae'r ddinas ei angen Arweinir seilwaith gan Reoli Datblygu ac mae'r awdurdod yn llwyddiannus iawn o ran ei ddarparu. Ystyriodd fod angen gwneud mwy i hysbysebu hyn. Dywedodd aelodau Cabinet fod llawer o waith yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni o ran s106, gan gynnwys y posibilrwydd o ddarparu tai cymdeithasol.

- Ceisiodd Cynghorydd eglurhad ar yr ateb a dderbyniodd i gwestiwn a ofynnwyd yn y Cyngor, a oedd yn ymwneud â hysbysiadau gorfodi a nifer y dymchweliadau sydd eu hangen Ni all Swyddogion Cynllunio roi'r eglurhad y gofynnwyd amdano gan ei fod yn ymwneud â phenderfyniad yr Arolygiaeth Gynllunio mewn achos penodol. Fodd bynnag, dywedodd Swyddogion Cynllunio nad oes achosion pan na chymerir camau gorfodi o ganlyniad i gostau a achoswyd. Dywedodd y Cynghorydd mai'r obaith olaf yw dymchwel – ac a oes angen dymchwel yna mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi methu. Rhoddir pwyslais ar geisiadau cynllunio trwy ganllawiau cynllunio, polisïau, Cynllunio, Paratoi ac Asesu, ac ati. Bwriad y Gwasanaeth Cynllunio yw mynd i'r afael ag unrhyw fater cyn iddynt godi Mae'r CDLl a'r Canllawiau Cynllunio Ategol yn rhoi canllawiau clir ar gyfer ymgeiswyr a'r awdurdod.

- Nododd yr aelodau fod cynnydd wedi bod yn nifer y ceisiadau wedi'u derbyn ar gyfer llety myfyrwyr yn y Ddinas. gofynnodd aelod sut mae'r awdurdod yn ystyried ceisiadau. Dywedodd swyddogion fod dyletswydd ar y Gwasanaeth Cynllunio i ystyried a yw unrhyw gais yn cydymffurfio â pholisi. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio fod tua 40,000 o fyfyrwyr yn y Ddinas. Bydd y farchnad yn penderfynu a yw datblygwyr am fuddsoddi yn y mathau hyn o ddatblygu. Teimlodd y Cadeirydd fod llety myfyrwyr yn y Ddinas yn gwella a, yn ei dro, roedd hyn yn arwain at Dai Amlfeddiannaeth yn cael eu newid yn ôl i gartrefi i deuluoedd, a groesawir.

- Gofynnodd yr aelodau faint o Ganllawiau Cynllunio Ategol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Dywedodd Swyddogion Cynllunio fod 30 Canllaw Cynllunio Ategol a bod trosiant cyson.

- Sylwodd y Cadeirydd ar faterion yn ymwneud â Phroject Metro Caerdydd. Yn enwedig, mynegwyd pryderon ynghylch y llwybrau arfaethedig a'r potensial ar gyfer camhysbysu'r cyhoedd. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai project Llywodraeth Cymru yw Project Metro Caerdydd ac er bod materion o'r fath yn achosi pryder, nid ydynt o fewn rheolaeth yr awdurdod.

- Gofynnodd yr aelodau pryd ystyrir seilwaith yn ystod y broses cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr. Dywedodd swyddogion fod y Gwasanaeth Cynllunio yn negodi pecynnau manwl o seilwaith ar gyfer pob cam o'r datblygu pan dderbynnir cais cynllunio. Blaenoriaethau corfforaethol sy'n penderfynu ar yr hyn sy'n briodol o ran seilwaith. Mae gan yr holl gyfarwyddiaethau cyfle i gyfrannu at y trafodaethau hynny.

- Gofynnwyd i swyddogion sylwi ar bryderon Cymdeithas Ddinesig Caerdydd ynghylch y CDLl. Dywedodd swyddogion nad oedd y Gymdeithas Ddinesig yn cynllunio archwilwyr. Roedd y CDLl yn gadarn ac mae wedi'i fabwysiadu heb gafeatau neu gymalau.

- Gofynnodd aelodau fod Cynghorwyr ward lleol yn cael y diweddaraf ar ddyraniadau s106 yn eu wardiau yn gyfnodol. Dywedodd swyddogion fod s106 yn cael eu cofnodi a'u bod ar gael i'r holl Aelodau ar gais. Gofynnwyd i aelodau nodi eu blaenoriaethau ar gyfer projectau s106 yn eu wardiau. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio trafodaethau gyda datblygwyr. Diweddarir y gofrestr yn flynyddol.

DATRYSWYD – Fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

46 : GOHEBIAETH

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

47 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Ionawr 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm